



Effaith Oedran Cymharol mewn E-Chwaraeon yng Nghymru: Dadansoddiad o ddata Esports

Mike Morris & Dr Gavin Lawrence, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer, Prifysgol Bangor



PRIF GANFYDDIAD: Roedd chwaraewyr a anwyd yn gynnar yn y flwyddyn, Ionawr i Fawrth, wedi eu gor-gynrychioli mewn e-chwaraeon yng Nghymru.

1. Cefndir

Mae'r effaith oedran cymharol (Relative Age Effect; RAE) yn digwydd pan mae pobl sydd wedi eu geni'n agosach at ddyddiad torri oedran yn cael mantais dros rai a anwyd yn hwyrach. Mewn chwaraeon traddodiadol, gall hyn olygu mwy o sylw, mwy o hyfforddi, a mwy o gyfleoedd datblygu i blant cymharol hŷn (Barnsley et al., 1985; Cobley et al., 2009).

Gan nad yw e-chwaraeon yn dibynnu ar faint corfforol neu gryfder, gellid tybio na fyddai RAE yn digwydd yma. Ond gall ffactorau fel hyder, profiad, cefnogaeth, a chyfleoedd cystadlu ddal i siapio datblygiad (Musch & Grondin, 2001; Hancock et al., 2013).

Felly roedd y cwestiwn yn syml: ydy RAE yn bodoli mewn e-chwaraeon yng Nghymru?

2. Nodau

1

Edrych ar ddisbarthiad dyddiadau geni chwaraewyr Esports Wales.

2

Cymharu'r dosbarthiad â data geni cenedlaethol Cymru a Lloegr.

3

Profi a oedd chwaraewyr Q1, Ionawr i Fawrth, wedi eu gor-gynrychioli.

3. Dulliau

- Defnyddiwyd data dyddiad geni gan Esports Wales.
- Ar ôl glanhau'r data, roedd 1,567 o gofnodion dilys ar gael.
- Rhannwyd y sampl yn ddau grŵp: Ieuenctid, 18 oed neu iau; Oedolion, 19 oed neu hŷn
- Rhannwyd dyddiadau geni yn bedwar chwarter: Q1, Ionawr i Fawrth; Q2, Ebrill i Fehefin; Q3, Gorffennaf i Fedi; Q4, Hydref i Ragfyr
- Defnyddiwyd profion chi-sgwâr a chymarebau cynrychiolaeth gymharol, RRR, wedi eu haddasu ar gyfer dosbarthiad geni cenedlaethol.

4. Pwy oedd yn y sampl?



Sampl llawn
1,567



Ieuenctid
277



Oedolion
1,290



Roedd y sampl yn dod o restr dalent a chronfa dethol tîm cenedlaethol Esports Wales.




Dosbarthiad geni sampl llawn (n = 1567)

Cyfnod geni	Nifer (n)	%
Q1 (Ionawr-Mawrth)	452	28.8%
Q2 (Ebrill-Mehefin)	348	22.2%
Q3 (Gorffennaf-Medi)	401	25.6%
Q4 (Hydref-Rhagfyr)	366	23.4%

5. Dadansoddi Oedran Cymharol

Canran y cyfranogwyr yn ôl chwarter geni



Dosbarthiad geni disgwyliedig, ONS:
Q1 = 23.4%, Q2 = 25.6%, Q3 = 27.6%, Q4 = 23.2%

Prif ganlyniadau

Sampl llawn: $\chi^2(3) = 29.14, p < .001$

Ieuenctid: $\chi^2(3) = 17.48, p < .001$

Oedolion: $\chi^2(3) = 22.67, p < .001$

- Roedd Q1, Ionawr i Fawrth, wedi ei or-gynrychioli yn y sampl llawn.
- Roedd y patrwm cryfaf yn y grŵp ieuenctid.
- Mae hyn yn awgrymu bod RAE yn bresennol mewn e-chwaraeon yng Nghymru.

6. Cymarebau cynrychiolaeth, RRR

Sampl llawn, Q1 vs Q4:

RRR = 1.22, 95% CI 1.06 i 1.40

Ieuenctid, Q1 vs Q4:

RRR = 1.98, 95% CI 1.39 i 2.82

Oedolion, Q2 vs Q4:

RRR = 0.79, 95% CI 0.67 i 0.92

RRR > 1 = gor-gynrychiolaeth

RRR < 1 = tan-gynrychiolaeth

Ar ôl addasu ar gyfer genedigaethau cenedlaethol, roedd chwaraewyr ieuenctid bron ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu cynrychioli yn Q1 nag yn Q4

7. Esboniadau

Nid yw'r canlyniadau hyn yn golygu mai maint corfforol yw'r achos mewn e-chwaraeon. Mae'n fwy tebygol bod y patrwm yn dod o ffactorau datblygiadol eraill:

Hyder cynnar

Chwaraewyr cymharol hŷn efallai yn cael mwy o lwyddiant cynnar, sy'n gallu adeiladu hyder.

Mwy o gyfleoedd

Gall llwyddiant cynnar arwain at fwy o sylw, mwy o gefnogaeth, a mwy o gyfleoedd i ddatblygu.

Trosglwyddo o chwaraeon traddodiadol

Efallai bod rhai chwaraewyr wedi dod o chwaraeon fel pêl-droed, rygbi, neu chwaraeon ysgol, lle mae RAE eisoes yn gryf.

8. Goblygiadau

- Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw e-chwaraeon o reidrwydd yn hollol niwtral o safbwynt datblygiad. Hyd yn oed heb fantais corfforol glir, gall cyfleoedd cynnar a phrofiadau blaenorol siapio pwy sy'n cael ei weld, ei gefnogi, ac yn parhau.
- I sefydliadau fel Esports Wales, mae hyn yn golygu bod angen monitro dyddiadau geni, yn enwedig mewn systemau talent ac ieuenctid.
- Dylai hyfforddwy'r a detholwyr fod yn ymwybodol nad yw chwaraewr sy'n ymddangos yn fwy craff neu'n fwy hyderus yn gynnar bob amser yn fwy talentog yn y tymor hir.
- Y nod yw peidio colli chwaraewyr a anwyd yn hwyrach yn y flwyddyn, yn enwedig os ydynt angen mwy o amser, cefnogaeth, neu gyfle i ddatblygu.

Cyfeiriadau:

- Barnsley, R. H., Thompson, A. H., & Barnsley, P. E. (1985). Hockey success and birthdate: The relative age effect. *Canadian Association for Health, Physical Education and Recreation Journal*, 51, 23-28.
- Cobley, S., Baker, J., Wattie, N., & McKenna, J. (2009). Annual age-grouping and athlete development: A meta-analytical review of relative age effects in sport. *Sports Medicine*, 39(3), 235-256. <https://doi.org/10.2165/00007256-200939030-00005>
- Hancock, D. J., Adler, A. L., & Côté, J. (2013). A proposed theoretical model to explain relative age effects in sport. *European Journal of Sport Science*, 13(6), 630-637. <https://doi.org/10.1080/17461391.2013.775352>
- Musch, J., & Grondin, S. (2001). Unequal competition as an impediment to personal development: A review of the relative age effect in sport. *Developmental Review*, 21(2), 147-167. <https://doi.org/10.1006/drev.2000.0516>
- Office for National Statistics. (2024). *Birth characteristics in England and Wales: 2022*. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/bulletins/birthcharacteristicsinenglandandwales/2022>